

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ

Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600

Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660

info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Simon Thomas, AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cyfeirnod: HVT/2753/caf

Dyddiad cyhoeddi: 16 Hydref 2017

Arnydd Simon

Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)

Rwyf newydd edrych yn gyflym ar Fil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru), ynghyd â'i Femorandwm Esboniadol, ac yn anffodus rwyf wedi canfod un neu ddau o faterion y credaf y dylwn eu codi gyda chi yn gynt yn hytrach nag yn hwyrach. Tra'n ysgrifennu, rwyf wedi derbyn y llythyr ymgynghori, dyddiedig 11 Hydref 2017, gan Gadeirydd Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol. Fodd bynnag, credaf nad yw natur llawer o'r materion y mae angen i mi eu codi yn cyd-fynd yn rhwydd â'r ymgynghoriad ar egwyddorion cyffredinol y Bil, ac mai eu codi yn uniongyrchol gyda chi fyddai orau.

Y mater cyntaf yw bod "Swyddfa Archwilio Cymru" wedi ei rhestru yn Atodlen 3 i'r Bil, sy'n golygu ei bod i fod yn gorff a allai fod yn destun ymchwiliadau'r Ombwdsmon. Fel yr eglurais yn fy llythyr at y Llywydd, dyddiedig 8 Mehefin 2016, roeddwn wedi trafod o'r blaen ac wedi cytuno gyda Nick Bennett fod perygl y byddai hyn yn creu dryswch a rhwystredigaeth, fyddai'n difa amser. Mae llawer o bobl yn cymysgu Swyddfa Archwilio Cymru gyda'r Archwilydd Cyffredinol ac yn tybied yn anghywir bod Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal archwiliadau. Ond mae prif swyddogaethau'r Swyddfa mewn gwirionedd wedi eu cyfyngu i ddarparu adnoddau, a monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae perygl y byddai cynnwys Swyddfa Archwilio Cymru o fewn cylch gorchwyl yr Ombwdsmon yn annog unigolion, a hoffai i'r Archwilydd Cyffredinol ddod i farn archwilio wahanol, i feddwl bod yr Ombwdsmon yn cynnig ffordd i farn o'r fath gael ei hadolygu.

Yn wir, gan nad yw swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys darparu gwasanaethau i unigolion (ac eithrio'r Archwilydd Cyffredinol), teimlad Nick a minnau oedd ei bod yn anodd gweld sut y gellid byth gyflwyno achos i'r Ombwdsmon fyddai'n gyfreithlon yn galw am adolygu camau gweithredu Swyddfa Archwilio Cymru. Rwyf yn tybio, yn absenoldeb Pwyllgor oedd yn gyfrifol am y Bil ar adeg fy llythyr, bod fy llythyr wedi mynd yn angof. Fodd bynnag, byddai o gymorth pe gellid cyflwyno gwelliant i dynnu Swyddfa Archwilio Cymru allan o Atodlen 3.

Mae a wnelo'r ail fater â'r Memorandwm Esboniadol i'r Bil. Mae paragraffau 9 a 10 o Atodlen 1 i'r Bil yn cynnwys darpariaethau ar gyfer codi taliadau uniongyrchol ar Gronfa


Gyfunol Cymru, ac felly o dan Reol Sefydlog 26.6(xi), rhaid i'r Memorandwm Esboniadol ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n nodi ei farn ef neu hi ynghylch p'un a yw'r taliadau hynny yn briodol neu beidio. Nid yw'r Memorandwm fodd bynnag yn cynnwys adroddiad o'r fath ac felly nid yw gofynion Rheol Sefydlog 26.6(xi) wedi cael eu bodloni.

Nodaf, fodd bynnag, fod y Memorandwm Esboniadol yn dyfynnu fy llythyr i at Gadeirydd blaenorol y Pwyllgor Cyllid, Jocelyn Davies AC, dyddiedig 19 Chwefror 2015, oedd yn egluro nad oedd y cynigion a gyflwynwyd gan yr Ombwdsmon ar y pryd yn ymddangos yn debygol o fod angen darpariaethau ar gyfer taliadau uniongyrchol. Dywed y Memorandwm "yn unol â'r cyngor, nid yw'r Memorandwm Esboniadol hwn yn cynnwys adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol". Mae'r Memorandwm braidd yn colli'r pwynt. Er i mi roi barn nad oedd cynigion yr Ombwdsmon (oedd yn rhagflaenu'r Bil drafft hyd yn oed) yn ymddangos yn debygol o fod angen darpariaethau ar gyfer taliadau uniongyrchol, nid yw hynny yr un fath â dweud na fyddai adroddiad yn angenrheidiol ar unrhyw ddarpariaethau uniongyrchol oedd wedi'u cynnwys mewn Bil. Byddaf yn hapus, fodd bynnag, i ddarparu adroddiad o'r fath er mwyn ei gwneud yn bosibl cyflwyno Memorandwm Esboniadol diwygiedig.

Efallai y byddai o gymorth pe bawn yn crybwyll pryder ynglŷn ag adran 68, sef gwaharddiad ar ddatgelu gwybodaeth, er mai mater addas i'w godi mewn ymateb i ymgynghoriad Cyfnod 1 ar y Bil ydyw hwn. Mae'r cyfyngiad hwn yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, gwybodaeth a ddarparwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol wrth gydweithredu o dan adran 67. Byddai o gymorth pe câi adran 68 ei diwygio er mwyn gwneud yn glir nad yw'n cyfyngu ar yr Archwilydd Cyffredinol rhag datgelu gwybodaeth a ddarparwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan adran 68. Fel y mae, efallai y byddai adran 68 yn annog peidio â chydweithredu o dan adran 67, ac felly gallai fod yn rhwystr posibl rhag gweithredu'r Bil yn llwyddiannus.

Yn olaf, o ystyried y drafodaeth a gawsom ynglŷn â'r angen am gysondeb o ran deddfwriaeth archwilio, byddai'n ddefnyddiol pe bai'r Bil yn cynnwys darpariaeth fod yr Archwilydd Cyffredinol i gael ei fodloni p'un a yw'r Ombwdsmon wedi gwneud trefniadau neu beidio ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, er mwyn cydfynd â'r gofynion yn y GIG a Llywodraeth Leol.

Byddwn yn hapus i drafod ac egluro'r materion hyn.

Hu *gym* 

HUW VAUGHAN THOMAS
ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

cc: John Griffiths AC, Cadeirydd Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Nick Bennett, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru